Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Canfyddiadau'r Pwyllgor ynghylch yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth ar gyfer Cyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru

Mawrth 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@assembly.wales**
Twitter: **@ SeneddDGCh**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Canfyddiadau'r Pwyllgor ynghylch yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth ar gyfer Cyhoeddi a Llenyddiaeth yng Nghymru

Mawrth 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd Pwyllgor Diwylliant, y Cymraeg a Chyfathrebu ar 28 Mehefin 2016. Mae ei gylch gwaith ar gael yn: www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Bethan Sayed AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Siân Gwenllian AC**
Plaid Cymru
Arfon



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

**Jack Sargeant AC**
Llafur Cymru
Alun a Glannau Dyfrdwy

**Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:**



**Hannah Blythyn AM**
Llafur Cymru
Delyn



**Dawn Bowden AM**
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



**Dai Lloyd AM**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Jeremy Miles AM**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **5**

**Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion** .......... **6**

**1. Cefndir** .......... **8**

Tirwedd bresennol y cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth .......... 9

Cyngor Llyfrau Cymru .......... 9

Cyngor Celfyddydau Cymru .......... 10

Llenyddiaeth Cymru .......... 10

Cyfnewidfa Lên Cymru .......... 11

Llywodraeth Cymru .......... 11

Argymhellion yr adolygiad .......... 11

Cyffredinol .......... 11

Newidiadau i'r ffordd y caiff cymorth ei weinyddu .......... 12

Sylwadau ac ymatebion gan randdeiliaid penodol .......... 13

Llywodraeth Cymru .......... 13

Llenyddiaeth Cymru .......... 15

Cyngor Llyfrau Cymru .......... 19

**2. Tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor** .......... **22**

Tystiolaeth ysgrifenedig .......... 22

Tystiolaeth lafar .......... 23

Materion sy'n codi o'r dystiolaeth lafar .......... 23

Llenyddiaeth Cymru .......... 23

Cyngor Llyfrau Cymru .......... 24

Cyngor Celfyddydau Cymru .......... 25

Y Panel Adolygu .......... 26

Llywodraeth Cymru .......... 26

**3. Ein Casgliadau a'n Hargymhellion** .......... **29**

Sylwadau Cyffredinol .......... 29

Dadansoddiad y Panel ........ 30

Diffyg Ystyriaeth Ddigonol i'r Materion Allweddol ........ 30

Dim digon o bwyslais ar lenyddiaeth ........ 30

Cyngor Llyfrau Cymru ........ 30

Beirniadaeth ar Lenyddiaeth Cymru ........ 31

Gwrthdaro buddiannau ........ 32

Yr ymateb i'r adroddiad ........ 33

Y Ffordd Ymlaen ........ 34

# Cyflwyniad

Yn ystod yr haf ac ar ddechrau tymor yr hydref 2017, cyflwynwyd nifer sylweddol o sylwadau i'r Pwyllgor yn ddigymell. Roedd y rheini'n mynegi pryder am rai o'r argymhellion a wnaed gan banel adolygu annibynnol o dan gadeiryddiaeth yr Athro Medwin Hughes a oedd wedi edrych ar y cymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru, ar gais Llywodraeth Cymru.

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i'r pryderon a fynegwyd gan edrych yn benodol ar eu heffaith ar Lenyddiaeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein casgliadau.

Wrth benderfynu cynnal yr ymchwiliad hwn, nid ein bwriad oedd bwrw golwg fanwl neu fforensig ar ganfyddiadau'r panel. Nid ydym wedi adolygu pob un o'i argymhellion ac nid dyna oedd ein bwriad wrth gychwyn y gwaith.

Rydym yn pryderu bod y ffordd y mae'r ddadl ynghylch yr adolygiad hwn wedi cael ei chynnal wedi taflu cysgod dros y materion pwysig y mae angen eu datrys yn y sector o hyd. Dyna pam ein bod yn awyddus i edrych ar y sector hwn eto yn fanylach, ar ôl ymdrin â'r materion sy'n peri'r pryder pennaf.

Ein prif argymhelliad yw na ddylid bwrw ymlaen â chynigion y panel i drosglwyddo swyddogaethau Llenyddiaeth Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru heb waith trafod a dadansoddi beirniadol pellach.

# Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion

## CASGLIADAU

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn nad yw dadansoddiad y panel o'r dirywiad ym maes cyhoeddi yng Nghymru yn ddigonol. Mae'r diffyg dadansoddi hwn yn codi pryderon mwy cyffredinol am y dystiolaeth y seiliwyd argymhellion y panel arni. ........ Tudalen 30

**Casgliad 2.** Rydym yn cytuno â'r farn bod adroddiad y panel yn canolbwyntio'n rhy gyfyng ar gyhoeddi ac na roddwyd digon o sylw i'r newidiadau yn y ffordd y mae llenyddiaeth yn cael ei chreu a'i rhannu, yn enwedig yn y byd digidol. ........ Tudalen 30

**Casgliad 3.** Nid ydym yn argyhoeddedig bod agweddau ymarferol a chostau trosglwyddo swyddogaethau Llenyddiaeth Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru wedi cael eu hystyried yn iawn nac ychwaith mai Cyngor Llyfrau Cymru sydd yn y sefyllfa orau i ysgwyddo'r cyfrifoldebau newydd hyn ar hyn o bryd. ........ Tudalen 31

**Casgliad 4.** Mae Llenyddiaeth Cymru yn wynebu nifer o heriau. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn dangos nad oedd yn ffit i gael arian cyhoeddus nac ychwaith bod perygl iddo fethu. Mae hyn yn bwrw rhagor o amheuon ar rai o brif argymhellion y panel. ........ Tudalen 32

**Casgliad 5.** Er bod canfyddiad bod achosion o wrthdaro buddiannau mewn perthynas â rhai aelodau o'r panel, cafodd pob buddiant ei ddatgan yn briodol ac ni welsom ddim tystiolaeth a oedd yn awgrymu nad oedd gwrthdaro posibl o'r fath wedi'i reoli'n briodol gan ddilyn y safonau uniondeb uchaf un. ........ Tudalen 32

**Casgliad 6.** Nid yw ymateb gor-amddiffynnol Llenyddiaeth Cymru i'r adroddiad yn creu argraff dda o'r sefydliad ac nid yw ychwaith wedi cyfrannu at greu ysbryd o gydweithio yn y dyfodol nac at drafodaeth aeddfed am ddyfodol y sector. Er ein bod yn cydnabod y gwnaed nifer o sylwadau cadarnhaol gan dystion ynghylch y gwaith da y mae'r sefydliad yn ei wneud, ni wnaeth ei uwch dîm arwain argraff arnom dros y cyfnod hwn. ........ Tudalen 33

**Casgliad 7.** Dylai Cyngor Llyfrau Cymru ystyried a oedd ei ymateb i'r adroddiad er budd gorau cydweithio yn y dyfodol. ........ Tudalen 33

**Casgliad 8.** Mae angen i Lywodraeth Cymru yn awr fynd i'r afael â'r gwendidau y mae'r adroddiad hwn yn eu nodi i sicrhau bod y cyrff dan sylw yn rhoi eu gwahaniaethau o'r neilltu ac yn ymdrin â'r materion sylfaenol, sef y materion yr oedd y panel, er gwaetha'i holl wendidau, yn ceisio mynd i'r afael â hwy. ........ Tudalen 34

## ARGYMHELLION

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl ddogfennau a restrir ym mharagraff 49 o'r adroddiad hwn ynghyd â chofnodion cyfarfodydd y panel annibynnol. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull agored a thryloyw yn y dyfodol wrth benodi aelodau paneli ymgynghorol a chyrff tebyg, pan na fydd angen dilyn proses benodi gyhoeddus lawn..... Tudalen 32

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell na ddylid bwrw ymlaen â chynigion y panel i drosglwyddo swyddogaethau o Lenyddiaeth Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru heb wneud rhagor o waith dadansoddi beirniadol a heb ystyried y mater eto. Dylai'r Gweinidog oedi ac ystyried ein safbwyntiau cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â chynigion eraill y panel. ........ Tudalen 34

# 1. Cefndir

**1.** Ym mis Mai 2015, comisiynodd Ken Skates AC (y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd, sydd bellach yn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith) **adolygiad**[1] o'r cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth, a dyma oedd ei gylch gorchwyl:

- Prif nodau Llywodraeth Cymru o safbwynt cynorthwyo'r diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru, yn y ddwy iaith; h.y., beth rydym yn ceisio ei gyflawni, a hynny ar lefel ddiwylliannol, gymdeithasol ac economaidd? A yw'r nodau hyn yn addas i'w diben o hyd yn yr unfed ganrif ar hugain?
- Cwmpas a graddfa'r cymorth a gaiff ei roi ar hyn o bryd i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys y berthynas rhwng y cyrff sy'n gyfrifol am gyflenwi'r cymorth hwn.
- Datblygiadau digidol o fewn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.
- Y trefniadau gweinyddol o ran cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol Cymraeg ei iaith, yn ogystal ag ar gyfer papurau bro.
- Y cymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth mewn ardaloedd difreintiedig ar draws Cymru.

**2.** Aelodau'r panel adolygu oedd:

- Yr Athro Medwin Hughes (Cadeirydd): Is-ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones (Dirprwy Gadeirydd): Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant ac Athro y Cyfryngau a Diwydiannau Creadigol, Prifysgol Aberystwyth.
- John Williams: Awdur, nofelydd ac awdur-sgrin Ar hyn o bryd mae John Williams yn ysgrifennu i'r Mail on Sunday a'r Independent ac mae un o drefnwyr Gŵyl Talacharn.

[1] **http://llyw.cymru/newsroom/culture-tourism-sport/2017/170613-review-in-to-support-for-publishing-and-literature-in-wales/?lang=cy** – fel ar 8 Chwefror

- Philippa Davies: Awdur a seicolegydd busnes sydd wedi cyhoeddi 12 o lyfrau ffeithiol a ffuglen, yn ogystal â chynnwys gwe ar gyfer The Economist ac Udemy.
- Martin Rolph: Ymgynghorydd. Cynhaliodd Martin adolygiad annibynnol o gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer llyfrau o Gymru yn ystod 2014.

## Tirwedd bresennol y cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth

**3.** Eglurwyd y cyd-destun ar gyfer yr adolygiad yn adroddiad y panel ac fe'i crynhoir isod.

### Cyngor Llyfrau Cymru

**4.** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru drwy'r Cyngor Llyfrau, sy'n gorff anstatudol (ac yn elusen gofrestredig). Mae'n darparu nifer o wasanaethau arbenigol (ym maes golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu) gyda'r bwriad o wella safonau cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hefyd yn dosbarthu grantiau i gyhoeddwyr. Mae'r Cyngor Llyfrau yn hyrwyddo darllen a llythrennedd yng Nghymru.

**5.** Cafodd y Cyngor Llyfrau £3.6 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17, wedi'i rannu fel a ganlyn:[2]

**Prif gategorïau gwariant y Cyngor Llyfrau yn 2016-17**

| | |
|---|---|
| Staff arbenigol sy'n cefnogi cyhoeddwyr ac eraill | £748,000 |
| Grantiau Cyhoeddi | £2,299,000 |
| Gweinyddu Grantiau | £184,000 |
| Cyfalaf | £60,000 |
| Costau Cynnal Craidd | £295,000 |
| **Cyfanswm** | **£3,586,000** |

**6.** Rhoddir Grant Cyhoeddi'r Cyngor Llyfrau ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg. Dyrannwyd £1,632,550 i gyhoeddiadau Cymraeg a £666,450 i gyhoeddiadau Saesneg.

[2] Daw'r ffigurau o'r Adolygiad Annibynnol

**7.** Mae'r Cyngor Llyfrau yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru drwy gynnig gwasanaethau arbenigol â chymhorthdal am ffi fechan i'r cyhoeddwyr ym maes golygu, dylunio, gwerthu a marchnata a hefyd drwy roi cymorth grant i ryw 300 o deitlau bob blwyddyn (200 yn Gymraeg a 100 yn Saesneg), gan sianelu'r arian drwy gyhoeddwyr. Yn ogystal â hyn, mae ei ganolfan ddosbarthu'n cadw stoc o deitlau'n ymwneud â Chymru yn y ddwy iaith, gan ddosbarthu'r rhain i fwy nag 800 o siopau.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

**8.** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu gyda chyfuniad o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru ac arian y loteri. Yn ystod 2016-17, cafodd £30.6 miliwn gan Lywodraeth Cymru ac £16 miliwn gan y loteri. Mae gan Gyngor y Celfyddydau sefydliadau cenedlaethol sy'n cael eu hariannu yn flynyddol, a Llenyddiaeth Cymru yw un o'r rhain ar hyn o bryd.

**9.** Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yw'r gangen o Gyngor y Celfyddydau sy'n ysgogi ac yn cefnogi ymgysylltu rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol. Ei nod yw rhoi llwyfan rhyngwladol i'r celfyddydau yng Nghymru a chryfhau proffil Cymru yn rhyngwladol. Ym maes llenyddiaeth a chyhoeddi rhyngwladol, mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn cefnogi Cyfnewidfa Lên Cymru.

## Llenyddiaeth Cymru

**10.** Mae Cyngor y Celfyddydau wedi dynodi Llenyddiaeth Cymru yn Gwmni Cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 2011 ar ôl uno Academi, yr Asiantaeth Hyrwyddo Llenyddiaeth Genedlaethol a gweinyddwr yr Academi Gymreig (Cymdeithas Awduron Cymru) a Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Dyma rai o weithgareddau Llenyddiaeth Cymru:

- Gwasanaethau i Awduron (gan gynnwys Ysgoloriaethau a Mentora);
- Llyfr y Flwyddyn yng Nghymru;
- Bardd Cenedlaethol Cymru;
- Bardd Plant Cymru ac Awdur Llawryfog Pobl Ifanc Cymru;
- Cyrsiau ysgrifennu creadigol yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd;
- Digwyddiadau mawr, megis dathlu canmlwyddiant Roald Dahl a Dylan Thomas; a

- Mentrau Twristiaeth Lenyddol.

**11.** Yn 2016-17, rhoddodd Cyngor y Celfyddydau £717,000 o arian refeniw craidd i Lenyddiaeth Cymru o gronfa cymorth grant y cyngor. Rhoddodd y Cyngor hefyd £151,000 o arian prosiect i Lenyddiaeth Cymru o'i gyllideb Loteri Genedlaethol.

### Cyfnewidfa Lên Cymru

**12.** Mae Cyfnewidfa Lên Cymru, sydd wedi'i lleoli yn Sefydliad Mercator ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn cael ei hariannu gan Gyngor y Celfyddydau ac mae'n cysylltu awduron, cyfieithwyr, cyhoeddwyr ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â hwyluso cyfnewid llenyddiaeth rhwng Cymru a'r byd. Mae ganddi Gronfa Grantiau Cyfieithu (£20,000 y flwyddyn) sydd ar gael i gyhoeddwyr i helpu gyda chostau cyfieithu a chyhoeddi llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg (o Gymru).

### Llywodraeth Cymru

**13.** Gan mwyaf, bydd y cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yn cael ei sianelu drwy Gyngor y Celfyddydau i'r sefydliadau a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, gellid ystyried y cyllid a ddarperir drwy'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus i hyrwyddo llythrennedd, ac ariannu digwyddiadau mawr llenyddol (e.e. canmlwyddiant Dylan Thomas a Roald Dahl) yn gymorth i lenyddiaeth.

**14.** Hefyd, yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i sefydlu Cymru Greadigol, sef corff hyd braich â'r nod o ddatblygu'r diwydiannau creadigol a chefnogi eu twf economaidd. Fodd bynnag, ceir diffyg eglurder ar hyn o bryd, yn sector y celfyddydau ac yn Llywodraeth Cymru fel ei gilydd, ynghylch beth fydd union rôl y corff hwn.

## Argymhellion yr adolygiad

**15.** Dyma brif argymhellion yr adolygiad i Lywodraeth Cymru:

### Cyffredinol

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cymorth ariannol i'r diwydiant ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg.

- Dylid parhau i ddarparu cymorth ar gyfer deunyddiau print a digidol, ond mae angen gwella'n sylweddol y ddarpariaeth ddigidol a'r strategaeth.

- Dylid cadarnhau pwysigrwydd cyllid priodol gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ac annog cyfleoedd arloesol ar gyfer datblygu llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru.

- Mae'r rhain yn feysydd buddsoddi allweddol sy'n cyd-fynd yn llwyr ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac sy'n cefnogi'n uniongyrchol y blaenoriaethau strategol a nodir yn ei Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*.

## Newidiadau i'r ffordd y caiff cymorth ei weinyddu

- Dylai Llywodraeth Cymru geisio dod i gytundeb â Chyngor Llyfrau Cymru i sicrhau y bydd yn ymgymryd â rhai o swyddogaethau presennol Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys:
    - Llyfr y Flwyddyn (gyda'r nod o gynyddu ei effaith fasnachol, gan gynnwys ystyried y dull marchnata sydd ei angen);
    - Ysgoloriaethau;
    - Digwyddiadau Llenyddol / Awduron ar Daith;
    - Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

- Byddai hyn yn gofyn am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a ddylai gael ei wrthbwyso gan ostyngiad cyfatebol yn y cyllid a ddarperir i Gyngor Celfyddydau Cymru at y dibenion hyn (cyllid y mae'n ei drosglwyddo i Lenyddiaeth Cymru ar hyn o bryd).

- Pan fydd y swyddogaethau uchod yn dibynnu ar gyllid trydydd parti (e.e.; Y Loteri Genedlaethol a ddyfernir ar hyn o bryd ar gyfer ysgoloriaethau), dylid sicrhau cytundeb gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru na fydd y Cyngor na Llenyddiaeth Cymru yn ailymgeisio ar gyfer y cyllid hwn ar ddiwedd y cyfnod dyfarnu, ac y byddant yn hytrach yn cefnogi cais gan Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y cyllid sydd ei angen ar gyfer y swyddogaeth hon yn y dyfodol.

- Os caiff dibenion Cyngor Llyfrau Cymru eu hehangu ar y sail hon, yna byddai angen i'r Cyngor Llyfrau ystyried y canlynol:
    - Newid ei deitl i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol;

    - Presenoldeb priodol ar lefel ranbarthol ar draws Cymru;
    - Strategaeth ddigidol glir ac iddi ffocws;
    - Strategaeth glir i hyrwyddo cynhwysiant ar draws Cymru, gan adeiladu ar ei strategaeth tlodi plant bresennol;
    - Strategaeth datblygu talent.
- Ar ôl cytuno ar hyn, byddai angen i Lywodraeth Cymru adlewyrchu'r newidiadau uchod mewn llythyr dyfarnu grant diwygiedig i'r Cyngor Llyfrau a llythyr cylch gwaith diwygiedig cyfatebol i Gyngor y Celfyddydau (yn dileu'r dyletswyddau ac yn trosglwyddo arian i'r Cyngor Llyfrau).
- Yn sgil y newidiadau strwythurol hyn, byddai'r cyfrifoldebau a ganlyn yn aros gyda Chyngor y Celfyddydau/Llenyddiaeth Cymru:
    - Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd;
    - Digwyddiadau a gwyliau diwylliannol eraill a drefnir gan Gyngor y Celfyddydau.

## Sylwadau ac ymatebion gan randdeiliaid penodol

### Llywodraeth Cymru

**16.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi wedi **dweud**:[3]

> "O ystyried cryfder a grym y dystiolaeth a ddaeth i law, rwy'n bwriadu derbyn y prif argymhellion a bydd Llywodraeth Cymru yn awr yn gweithio gyda'r cyrff perthnasol i'w rhoi ar waith."

**17.** Nid yw Gweinidogion wedi ymateb yn llawnach i'r adroddiad eto. Ar 14 Gorffennaf 2017 **ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet**[4] at Gyngor y Celfyddydau, Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru ar ôl iddynt oll ymateb i'r Adolygiad Annibynnol. Rhannwyd yr ymatebion hyn â'r panel adolygu i'w hystyried. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

[3] **http://llyw.cymru/newsroom/culture-tourism-sport/2017/170613-review-in-to-support-for-publishing-and-literature-in-wales/?lang=cy** – fel ar 8 Chwefror 2018

[4] **www.assembly.wales/deposited%20papers/dp-1641-16-21/dp-1641-16-21.pdf** – fel ar 8 Chwefror 2018

> "This process will largely focus on matters of accuracy, scope, impartiality and strategic effectiveness, as these are the areas you have primarily focused on in your submissions. This will take some time, especially given the academic commitments of both the Chair and Vice-Chair of the panel over the next few weeks. I expect to receive the panel's written response towards the end of the summer break."

**18.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y sawl a oedd wedi derbyn y llythyr wrthi'n ystyried materion ymarferol rhoi argymhellion yr adolygiad ar waith. Serch hynny, dywedodd:

> "I am absolutely clear that your participation in this work on the practicalities of implementation does not imply support for, or acceptance of, specific recommendations. Neither should you assume that this work implies I have already made any final decisions."

**19.** Fodd bynnag, wrth ateb cwestiynau yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft y Cynulliad, dywedodd y Gweinidog newydd dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, yr Arglwydd Elis-Thomas AC PC, wrth y Pwyllgor:[5]

> "Yr unig benderfyniad wnes i, cyn mynd i gystadleuaeth llyfr y flwyddyn, oedd penderfynu bod y corff presennol, Llenyddiaeth Cymru, sydd wedi bod yn rhedeg y gystadleuaeth yna, neu'r wobr yna, yn parhau i wneud am y flwyddyn nesaf. Dyna'r unig benderfyniad rwyf wedi ei wneud.
>
> Hefyd, mae swyddogaeth y cyngor llyfrau, fel corff sydd yn ymyrryd yn y farchnad ac yn cynllunio yn y farchnad, fel bod yna ddarpariaeth gyhoeddedig yn Gymraeg ac yn Saesneg—mae honno yn swyddogaeth sydd wedi cael ei gweithredu yn effeithiol, yn fy marn i, dros gyfnod o amser. Ond nid yr un math o swyddogaeth ydy swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn hyrwyddo llenyddiaeth drwy Lenyddiaeth Cymru â swyddogaeth y cyngor llyfrau ynglŷn ag ymyrraeth effeithiol yn y farchnad i sicrhau bod yna deitlau Cymraeg a Saesneg ar gael yn y farchnad lyfrau yng Nghymru."

Ychwanegodd yn ddiweddarach:

> "Nid oes eisiau bod â doethineb Solomon i weld bod y penderfyniad nesaf allai gael ei wneud yn debyg i'r un sydd wedi'i wneud yr wythnos yma."

---

[5] Trawsgrifiad y Pwyllgor – 16 Tachwedd 2017

## Llenyddiaeth Cymru

**20.** Mae'r adolygiad yn feirniadol iawn o Lenyddiaeth Cymru - mae'r sefydliad wedi ymateb drwy ei amddiffyn ei hun yn chwyrn, gan fwrw amheuaeth ar ansawdd yr adroddiad a dweud ei fod yn cynnwys diffygion sylweddol a'i fod yn gamarweiniol, gan godi amheuon bod achosion o wrthdaro buddiannau ymysg aelodau'r panel. Dylid nodi bod Cyngor Celfyddydau Cymru - y prif gorff sy'n ariannu Llenyddiaeth Cymru – **yn dweud**[6] ei fod yn "hynod siomedig ar ansawdd yr adroddiad", a'i fod yn darparu "dadansoddiad rhannol" sy'n "anghyson yn ei feirniadaeth". Dywedodd Llenyddiaeth Cymru wrth y Pwyllgor hefyd fod yr adroddiad hynod feirniadol eisoes wedi cael effaith niweidiol ar ei weithgareddau codi arian a'i berthynas â sefydliadau partner.

*Llywodraethu*

**21.** Casgliad yr adolygiad oedd "nad oedd gan Lenyddiaeth Cymru y cyfansoddiad cywir o sgiliau a phrofiad i redeg corff sy'n gwario arian cyhoeddus". Roedd hefyd yn nodi bod y Panel yn siomedig "nad oedd Cadeirydd Llenyddiaeth Cymru yn barod i gyfarfod i drafod gweithgareddau Llenyddiaeth Cymru". Mae'r adolygiad yn dweud:

> "Yn ôl Cyngor Celfyddydau Cymru, nid yw Llenyddiaeth Cymru o dan unrhyw gamargraff ynghylch atebolrwydd, fel y dangosir gan y ffaith bod Cyngor y Celfyddydau wedi adnabod Llenyddiaeth Cymru fel sefydliad risg goch."

**22.** Dadleua Llenyddiaeth Cymru[7]:

> "Mae [cyfrifon Llenyddiaeth Cymru], a archwilir yn annibynnol, yn cael eu cyflwyno'n flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau a Chyngor Celfyddydau Cymru. Ers sefydlu Llenyddiaeth Cymru yn 2011, nid yw'r sefydliadau hyn wedi codi unrhyw bryderon ynghylch tryloywder na thrylwyredd Llenyddiaeth Cymru."

**23.** Mae Cyngor y Celfyddydau wedi dweud[8]:

[6] **www.arts.wales/126525?diablo.lang=cym** – fel ar 8 Chwefror 2018

[7] **www.llenyddiaethcymru.org/lw-news/datganiad-gan-llenyddiaeth-cymru-11-gorffennaf-2017/** – fel ar 8 Chwefror 2018

[8] **www.arts.wales/126525?diablo.lang=cym** – fel ar 8 Chwefror 2018

> "Mae'r adroddiad yn dewis cyflwyno Llenyddiaeth Cymru fel sefydliad sy'n gwegian ar ddibyn argyfwng, ac nad yw'n ffit i gael cyllid cyhoeddus. Rydym yn anghytuno'n llwyr â'r farn hon."

**24.** Fodd bynnag, mewn asesiad cynharach (2015)[9] o sgoriau risg sefydliadau a ariennir drwy refeniw, dywedodd y Cyngor Celfyddydau mai'r farn oedd bod rhai o'r sefydliadau hyn, gan gynnwys Llenyddiaeth Cymru, yn perfformio islaw eu lefelau optimaidd, a'i bod yn debygol y bydd cyllid refeniw yn cael ei dynnu'n ôl yn y flwyddyn ganlynol os na fydd perfformiad yn gwella'n sylweddol.

**25.** Mae Llenyddiaeth Cymru hefyd yn honni bod yr adroddiad yn cyflwyno adroddiad anghywir am ymdrechion y panel i drefnu cyfarfod gyda chadeirydd Llenyddiaeth Cymru.

*Tŷ Newydd*

**26.** Tŷ Newydd yw Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru, a Llenyddiaeth Cymru sy'n gyfrifol amdani. Mae'r adroddiad yn dweud bod y ganolfan "yn amlwg yn tanberfformio, ond bod Llenyddiaeth Cymru yn dal i gael grant o dros £110,000 y flwyddyn er mwyn sicrhau bod gweithrediadau Tŷ Newydd yn ei rôl bresennol yn gynaliadwy yn ariannol". Mae'n mynd yn ei flaen i gwestiynu cylch gwaith y ganolfan, gan nodi:

> "Ymddengys fod Tŷ Newydd wedi'i anelu'n bennaf at bobl sydd wedi ymddeol ac sy'n ysgrifennu fel hobi ond nid oedd yn glir pwy y mae Tŷ Newydd yn darparu ar ei gyfer ac felly pam mae'n derbyn cymhorthdal cyhoeddus."

**27.** Dadl Llenyddiaeth Cymru yw bod llawer o'r rheini sydd wedi bod ar gyrsiau wedi mynd yn eu blaen i ddod yn awduron llwyddiannus sydd wedi cyhoeddi eu gwaith.

*Llyfr y Flwyddyn Cymru*

**28.** Er bod yr adolygiad yn cytuno bod y wobr yn "gysyniad da", ei gasgliad oedd:

> "Bod diffygion sylweddol o ran sut y caiff ei hyrwyddo ac amheuaeth fawr ynghylch ai Llenyddiaeth Cymru yw'r sefydliad priodol i'w chydlynu. Mae ymdeimlad bod y wobr yn cael ei thanariannu fwyfwy a bod diffyg brwdfrydedd ar ran Llenyddiaeth Cymru ei hun yn amlwg."

---

[9] Papur i'r Pwyllgor – 4 Hydref 2017

**29.** Dywed Llenyddiaeth Cymru fod yr ystadegau ynglŷn â'r gynulleidfa y mae gwobr Llyfr y Flwyddyn yn ei chyrraedd yn gwrth-ddweud yr honiad yn yr adroddiad mai "prin iawn fu'r sylw yn y wasg i wobrau diweddar".

*Cymorth i awduron*

**30.** Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhoi ysgoloriaethau i awduron i'w galluogi i weithio ar brosiectau. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn rhoi grantiau i gyhoeddwyr, a'r rheini wedyn yn cael eu talu i awduron. Dywed yr adroddiad nad oes "rheswm amlwg" i bob golwg dros gadw'r ffrydiau ariannu hyn ar wahân, ac mae'n dweud mai dyma "un o'r enghreifftiau cliriaf o ddiffyg cydweithio dybryd rhwng y Cyngor Llyfrau a Llenyddiaeth Cymru". Mae'r adolygiad yn mynd yn ei flaen i ddweud:

- Ymddengys nad yw Llenyddiaeth Cymru'n canolbwyntio digon ar ddatblygu awduron.
- Mae byd ysgrifennu creadigol yn newid yn gyflym ac nid oes tystiolaeth bod Llenyddiaeth Cymru yn ymaddasu i hyn.
- Nid yw'n ymddangos bod Llenyddiaeth Cymru yn annog ysgrifennu neu awduron i fod yn fasnachol.

**31.** Dywed Llenyddiaeth Cymru nad yw'r cymariaethau rhwng yr arian y mae ef ei hun a'r arian y mae'r Cyngor Llyfrau yn ei roi i awduron yn rhoi sylw i gylch gwaith, pwrpas a chyrhaeddiad pob un o'r cynlluniau hyn. Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, mae Llenyddiaeth Cymru yn mynd yn ei flaen i egluro'r gwahaniaethau strategol y mae'n eu gweld rhyngddo a'r Cyngor Llyfrau. Mae'n gweld mai ffocws y Cyngor Llyfrau yw cefnogi cyhoeddi fel diwydiant masnachol, ond bod Llenyddiaeth Cymru:[10]

> "…wedi arloesi ym maes datblygu awduron, ymgysylltu creadigol a chymryd rhan yn llenyddol, gan annog arbrofi a chefnogi arallgyfeirio llenyddiaeth fel ffurf ar gelfyddyd."

*Digwyddiadau llenyddol byw*

**32.** Mae'r adolygiad yn dweud bod "Llenyddiaeth Cymru wedi symud o ganolbwyntio ar gefnogi hyrwyddwyr allanol i fod yn hyrwyddwr llenyddol ei hun, yn fwyaf nodedig gyda Gŵyl Dinefwr". Ei gasgliad oedd:

[10] Papur i'r Pwyllgor – 20 Medi 2017

> "Bod ymgnawdoliad newydd Llenyddiaeth Cymru fel hyrwyddwr gwyliau i'w weld yn aneffeithiol, yn ddrud ac ystumio'r farchnad sy'n gweithredu i raddau helaeth heb gymhorthdal sylweddol gan y sector."

*Ariannol*

**33.** Mae'r adroddiad yn mynegi syndod bod "75% o gyllideb Llenyddiaeth Cymru yn cael ei gwario ar gostau cyflogau ei staff ei hun", ac roedd yn siomedig hefyd "gyda record gyffredinol Llenyddiaeth Cymru o ddenu…arian o ffynonellau eraill".

**34.** Mae Llenyddiaeth Cymru yn datgan nad yw'r ffigur ar gyfer cost staffio yn gywir, ac mai'r ffigwr cywir yw rhwng 44 a 47%. Mae'n dweud hefyd:[11]

> "Ers 2011/12, mae'r incwm y mae Llenyddiaeth Cymru yn ei godi o ffynonellau eraill wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2011/12 roedd grant refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynrychioli 74% o incwm Llenyddiaeth Cymru. Erbyn 2015/16, roedd wedi gostwng i 61%. Yn y cyfnod hwn, mae'r incwm a'r cyllid ychwanegol y mae Llenyddiaeth Cymru yn eu cael y tu hwnt i'w grant craidd wedi cynyddu 122%."

*Cyffredinol*

**35.** Gyda golwg ar Lenyddiaeth Cymru, casgliad yr adroddiad yw:

> "Ar y cyfan, teimlai'r Panel fod cenhadaeth ac amcanion y sefydliad yn aneglur - a bod 'gwasanaethu pobl/pawb' yn afrealistig ac yn amwys. Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhy fewnblyg ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau. Ni ellir ystyried Llenyddiaeth Cymru yn sefydliad ifanc bellach ond barn y Panel oedd bod ei dystiolaeth yn dangos diffyg aeddfedrwydd a chynllunio strategol mewn nifer o feysydd."

**36.** Mae Llenyddiaeth Cymru wedi dweud wrthym fod y panel wedi diffinio llenyddiaeth mewn ffordd gyfyng a hen ffasiwn, sy'n ddiystyru ffurfiau llenyddol sylweddol (e.e. y gair llafar a nofelau graffeg) a bod ei ddealltwriaeth o hanfod 'awdur' yn gyfyng ac yn cael ei sbarduno gan ystyriaethau masnachol. Felly, oherwydd y ffordd y mae wedi diffinio llenyddiaeth, mae'r Panel yn beirniadu gweledigaeth a strategaeth Llenyddiaeth Cymru dro ar ôl tro. Mae'n dyfynnu Cyngor y Celfyddydau ac yn dweud bod ffocws clir bellach ar yr hyn y mae Llenyddiaeth Cymru'n ceisio'i gyflawni.

---

[11] Papur i'r Pwyllgor – 20 Medi 2017

**37.** Mae tystiolaeth Llenyddiaeth Cymru i'r pwyllgor yn sôn am ei waith yn ymwneud ag ehangu cyfranogiad mewn llenyddiaeth, gan gynnwys gydag oedolion ifanc agored i newid a phobl sy'n dioddef o ddementia. Mae'n dweud mai'r drafodaeth ar y maes gwaith hwn yw "un o'r rhannau mwyaf diffygiol yn Adroddiad Hughes". Mae'n dweud nad yw'r Adroddiad Annibynnol "yn cynnig unrhyw ddadansoddiad o effaith gymdeithasol gwaith Llenyddiaeth Cymru na'i lwyddiant wrth gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru a nodwyd drwy raglen Cyfuno a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol".

**38.** Mae Llenyddiaeth Cymru yn cloi ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor drwy ddweud:

> "Mae Adroddiad Hughes yn syml ac yn swta yn awgrymu "dympio" gweithgareddau, heb feddwl am ymarferoldeb, terfynau amser, risgiau amlwg na goblygiadau ariannol trosglwyddiad o'r fath. Fel y nodwyd uchod, mae Llenyddiaeth Cymru o'r farn y byddai sector sydd wedi'i gysylltu'n fwy dynamig, lle y caiff arbenigedd cyfredol ei gadw a'i wella, yn gwasanaethu pobl Cymru yn well."

## Cyngor Llyfrau Cymru

*Cyffredinol*

**39.** Cydnabu'r adroddiad nifer o wendidau ym mherfformiad Cyngor Llyfrau Cymru, a chydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y pwynt hwn hefyd yn y dystiolaeth lafar,[12] ond daeth i'r casgliad bod "y Cyngor Llyfrau yn arddangos lefel uchel o aeddfedrwydd mewn perthynas â'i swyddogaethau craidd", ac o ganlyniad "fod yr amser yn iawn i ystyried cyfrifoldebau ychwanegol i'r Cyngor Llyfrau".

*Llywodraethu ac ariannu*

**40.** Mae'r adroddiad yn dweud bod y Cyngor Llyfrau "yn mynd ati i geisio sicrhau'r gwerth gorau am arian gan gyhoeddwyr llyfrau a chylchgronau", ac "mae ganddo afael gadarn ar gostau gweinyddu a rhedeg". Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud bod "cronfeydd a grantiau yn cael eu microreoli'n dda", ond "gellid dadlau bod y Cyngor Llyfrau angen mwy o weithwyr proffesiynol y diwydiant o ran rhai agweddau o'i waith".

**41.** O ran llywodraethu, dywed yr adroddiad fod y sefydliad yn cael ei ystyried yn "dryloyw … yn sicrhau sefydlogrwydd, tegwch a pharch o fewn y sector".

[12] Trawsgrifiad y Pwyllgor, paragraff 509 – 12 Hydref 2017

*Cyhoeddi yn Gymraeg*

**42.** Mae'r adroddiad yn nodi bod y Cyngor Llyfrau "yn gwneud cyfraniad allweddol i gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg". Fodd bynnag, dywedodd: "yn hanesyddol, daw'r Cyngor Llyfrau o gefndir cyhoeddi Cymraeg ac efallai nad yw ei ddiwylliant bob amser yn gallu cefnogi cyhoeddwyr entrepreneuraidd".

*Cyhoeddi yn Saesneg*

**43.** Mae'r adroddiad yn sôn am y gwahaniaethau rhwng amgylchiadau'r farchnad ar gyfer cyhoeddi yn Gymraeg a chyhoeddi yn Saesneg, a bod "y farchnad yn gwneud llawer mwy ar gyfer ansawdd cyhoeddiadau Saesneg".

**44.** Dywed yr adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried helpu cyhoeddwyr i ymsefydlu yng Nghymru, p'un a oes gan y deunydd y byddant yn ei gyhoeddi gysylltiadau Cymreig ai peidio, yn hytrach na chyhoeddi gwaith o Gymru yn unig.

**45.** Ei gasgliad yw:

> "Teimlai'r Panel mai'r perygl ar gyfer cyhoeddiadau yng Nghymru sy'n cael arian grant yw ei fod yn dod yn ddiwydiant cartref clyd a hunanfodlon ar raddfa fach sy'n cael dylanwad bach ar ddiwylliant Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae'n rhaid dweud - o ystyried y lefel bresennol o gyllid - ac o ystyried cyd-destun ehangach y byd cyhoeddi yn y DU - dyna'r cyfan y gall rhywun ei ddisgwyl yn rhesymol.
>
> Un enghraifft o'r cyfraniad y gellir ei wneud yw'r fenter Library of Wales, a olygwyd gan Dai Smith ac a gyhoeddwyd gan Parthian. Mae hyn wedi bod yn ailddarganfyddiad poblogaidd a gwerthfawr o lenyddiaeth Eingl Gymreig y ganrif ddiwethaf a aeth yn angof i raddau helaeth. Ymddengys fod y gyfres hon o lyfrau yn enghraifft o arian grant ar ei orau - yn camu i'r adwy pan na fyddai'r farchnad yn fodlon gwneud hynny gan roi i bobl Cymru heddiw rywbeth mawr ei angen i'w hatgoffa bod mwy i'n hanes na Dylan Thomas."

*Rhy Amharod i Gymryd Risg Mewn Rhai Meysydd*

**46.** Mae'r adroddiad yn dweud bod:

> "'tystiolaeth' bod cymorth grant y Cyngor Llyfrau, 'ar y naill law, yn galluogi i rai llyfrau gael eu cyhoeddi lle mae galw isel amdanynt gan ddarllenwyr, ac ar y llaw arall ddim yn annog cymryd risg a phrofi'r farchnad'."

*Marchnata*

**47.** Mae’r adroddiad yn cydnabod bod hwn yn faes lle bu’n rhaid i’r Cyngor Llyfrau “wneud arbedion effeithlonrwydd”, ond yn dweud bod “angen i’r Cyngor Llyfrau roi mwy o sylw i farchnata”. Dywedodd “Gan fod y Cyngor Llyfrau wedi cwblhau ei drafodion busnes ar ôl i lyfr gael ei gyhoeddi, nid oes angen canolbwyntio ar farchnata”.

# 2. Tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor

## Tystiolaeth ysgrifenedig

**48.** Mae'r Pwyllgor wedi ystyried adroddiad y panel ochr yn ochr â chyflwyniadau ysgrifenedig pellach gan y cyrff dan sylw, Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chadeirydd y panel annibynnol.

**49.** Derbyniwyd ystod eang o ymatebion ysgrifenedig eraill hefyd ac fe'u cyhoeddwyd lle bo hynny'n briodol ar dudalennau gwe'r Pwyllgor. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am nifer o ddogfennau eraill gan Lywodraeth Cymru a oedd yn berthnasol i'w hystyried neu y cyfeiriwyd atynt yn y dystiolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddiad gan ARAD Research i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru a Llenyddiaeth Cymru am waith rhyngwladol yn y sector llenyddiaeth yng Nghymru;
- Adolygiad o fuddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru yn Llenyddiaeth Cymru;
- Gohebiaeth rhwng Cyngor y Celfyddydau a'r panel adolygu ynghylch y 'risg goch', yn enwedig y manylion am yr holl risgiau coch a oedd yn dal yn berthnasol i Lenyddiaeth Cymru adeg yr adolygiad;
- Cofnodion cyfarfodydd y Panel lle y clywyd tystiolaeth gan Llenyddiaeth Cymru;
- Cofnodion cyfarfodydd y Panel lle y clywyd tystiolaeth gan Gyngor Llyfrau Cymru; ac
- Ymateb llawn Cyngor Celfyddydau Cymru i adroddiad y panel a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru.

**50.** Oherwydd pryderon ynghylch diogelu data ac oherwydd na fydd cofnodion cyfarfodydd paneli adolygu annibynnol fel rheol yn cael eu cyhoeddi na'u rhannu â thrydydd partïon, dim ond ar sail 'gyfrinachol' yr oedd Llywodraeth Cymru yn barod i gytuno i rannu'r dogfennau hyn â'r Pwyllgor.

## Tystiolaeth lafar

**51.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ar 20 Medi 2017 gan Lenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, ar 4 Hydref 2017 gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Cadeirydd a chynrychiolwyr y panel adolygu annibynnol ac ar 12 Hydref gan Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd wedi bod yn cynorthwyo'r Adolygiad Annibynnol. Ymdriniwyd â'r mater hefyd wrth i'r Pwyllgor graffu ar y gyllideb ddrafft gyda'r Gweinidog newydd dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, yr Arglwydd Elis-Thomas AC PC.[13]

## Materion sy'n codi o'r dystiolaeth lafar

**52.** Mae trawsgrifiadau'r cyfarfodydd hyn i'w gweld ar wefan y Cynulliad yn **http://cofnod.cynulliad.cymru/search**. Trafodir rhai o'r materion allweddol sy'n codi o'r dystiolaeth lafar isod.

### Llenyddiaeth Cymru

**53.** Dywedodd Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru, wrth y Pwyllgor fod yr awyrgylch yng nghyfarfod y sefydliad gyda'r panel "os nad gelyniaethus, wedyn yn ymosodol ar adegau". Codwyd y mater hwn gan Gadeirydd Llenyddiaeth Cymru drwy lythyr a anfonwyd at Gadeirydd y panel adolygu.

**54.** Dywedodd yr Athro Damian Walford Davies, Cadeirydd Llenyddiaeth Cymru, wrth y Pwyllgor:

> "…during the meeting with the Welsh Books Council, for example, the panel had asked them before they had met with Literature Wales whether they were interested in taking on more responsibilities. I would like to know why they didn't ask us the same question."

**55.** Dywedodd Ms Siencyn, "Wnaethom ni ddim gael gyfle [sic] i ymateb fel un o'r prif randdeiliaid," cyn cyhoeddi'r adroddiad. Cyfeiriodd at "diffyg amrywiaeth o fewn y panel ei hun" gan ymhelaethu hefyd ar bryderon a godwyd cyn hynny ynglŷn â gwrthdaro buddiannau o fewn y panel:

[13] 16 Tachwedd 2017

> "The specifics of the conflict of interest relate to the chair of an organisation called Welsh Literature Exchange, which is an organisation that Literature Wales used to fund."

Dywedodd nad oedd y berthynas rhwng y ddau sefydliad yn berthynas rwydd.

**56.** Dywedodd yr Athro Davies:

> "Literature Wales was, and this is a very interesting point, put down on the red risk register [held by the Arts Council] simply because of this report, that this report was due, as it were—not because of the results of the report, but because the conclusions of the report might manifestly change the way we work."

**57.** Fodd bynnag, nododd Ms Siencyn y bu risgiau coch o'r blaen, oherwydd pryderon am Tŷ Newydd a materion eraill sydd wedi'u datrys ers hynny.

**58.** Dywedodd Mr Davies nad oedd dim archwilwyr blaenorol, y Comisiwn Elusennau na Thŷ'r Cwmnïau wedi codi unrhyw bryderon sylweddol ynghylch y ffordd yr oedd Llenyddiaeth Cymru'n gweithredu.

**59.** Nododd Ms Siencyn fod y panel adolygu wedi cyfeirio at awyrgylch cyfarfodydd y bwrdd heb iddynt erioed fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath.

**60.** Gan gyfeirio at Wobr Llyfr y Flwyddyn Cymru, dywedodd Ms Siencyn:

> "I would like to know how the panel, who, as far as I remember, have not been present at any recent book of the year ceremony or the internal planning meetings, could use the words 'palpable lack of enthusiasm' and describe themselves as a transparent and open panel."

## Cyngor Llyfrau Cymru

**61.** Dywedodd yr Athro M Wynn Thomas, Cadeirydd Cyngor Llyfrau Cymru, gan gyfeirio at wrthdaro buddiannau posibl o fewn y panel:

> "I'd be lying if I said that my eyebrows didn't rise a little when I saw the panel members. That's no reflection on their capacities, but I could see here or there one or two possible conflicts of interest. I have to tell you, though, that the way the review was conducted satisfied me on that score."

**62.** Serch hynny, dywedodd Ms Helgard Krause, Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru, ei bod wedi synnu nad oed yr un cyhoeddwr ar y panel hwnnw. Nododd Ms Krause hefyd ei bod yn teimlo bod rhywfaint o'r feirniadaeth ar y Cyngor Llyfrau yn yr adroddiad yn annheg:

> "I'll give you one that made me laugh, that Welsh bookshops don't see reps—you saw from the paperwork that they visited 2,300 or had 2,300 contact times; or that schools don't see schools officers—well, as you've seen from the paperwork that's blatantly not true; or that the books council is an organisation that is only concentrating on the Welsh language, which is blatantly not true. So, there are some observations that are personal opinion that I would disagree with."

**63.** Pan ofynnwyd iddynt am eu croeso brwdfrydig i'r adroddiad - adroddiad a oedd yn cynnwys beirniadaeth chwyrn ar sefydliadau partner, dywedodd Ms Krause wrth y Pwyllgor:

> "Well, our role is to represent our organisation, and—I think I've said that before—I have every confidence that we can deliver that, and it's pleasing to be given new and added responsibility. The Welsh Books Council for a while now has done very well what it is meant to be doing, and it's a mature organisation, and any organisation would welcome additional responsibilities, and I suppose that it reflects that; it reflects that we are ready—we feel that we are ready to take on new responsibilities—and because what was suggested here makes sense. Now, if, for example, a suggestion had been made that we were to start running large literary festivals, the response would have been very different."

## Cyngor Celfyddydau Cymru

**64.** Dadleuodd Cyngor y Celfyddydau, fel y gwnaeth Llenyddiaeth Cymru, nad oedd adroddiad y panel yn cwmpasu holl ehangder gweithgarwch llenyddol yng Nghymru, gan gynnwys gwaith cymunedol Llenyddiaeth Cymru.

**65.** Yn ei farn ef, nid oedd yr adroddiad yn cyfleu'r ffordd yr oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweld gweithgareddau Llenyddiaeth Cymru ar y pryd. Roedd barn y panel, yn ôl Cyngor Celfyddydau Cymru, wedi'i seilio ar safbwyntiau'r Cyngor yn 2015. Mae Llenyddiaeth Cymru wedi gwella pethau'n sylweddol ers hynny, a dywedodd Cyngor y Celfyddydau eu bod wedi cyfleu hyn wrth y panel.

**66.** Roedd Cyngor y Celfyddydau yn ategu sylwadau Llenyddiaeth Cymru mai'r unig "risg goch" a oedd yn wynebu Llenyddiaeth Cymru (lefel risg sy'n cael ei phennu ar gyfer Llenyddiaeth Cymru gan Gyngor y Celfyddydau, sef prif noddwr y sefydliad) adeg yr adolygiad oedd honno yn sgil y ffaith bod y trafodaethau ynghylch adroddiad y panel yn dal i fynd rhagddynt.

**67.** Roedd Cyngor y Celfyddydau'n synnu bod adroddiad ARAD yn cael ei ddefnyddio i raddau helaeth gan y panel i gyfiawnhau ei gasgliadau yn ei adroddiad ei hun. Adroddiad cyfyng ei natur oedd adroddiad ARAD, yn ôl Cyngor y Celfyddydau, a hwnnw ond yn edrych ar waith rhyngwladol yn y sector llenyddiaeth yng Nghymru.

## Y Panel Adolygu

**68.** Pan gyfarfu'r panel â Chyngor y Celfyddydau ym mis Hydref 2016, ni thrafodwyd yn fanwl natur unrhyw bryderon a oedd gan y Cyngor am drefniadau llywodraethu Llenyddiaeth Cymru. Dywedodd yr Athro Medwin Hughes ei fod yn deall bod datganiad generig o risg goch ar waith ar y pryd (Er gwaethaf yr asesiad risg yn 2015 y cyfeiriwyd ato'n gynharach, dywedodd Nick Capaldi o Gyngor y Celfyddydau wrth y Pwyllgor mai'r unig ddatganiad risg goch a oedd yn berthnasol bellach oedd hwnnw yn sgil y ffaith bod trafodaethau ynghylch adroddiad y panel yn dal i fynd rhagddynt).

## Llywodraeth Cymru

**69.** Yn ystod ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

> "…I think it's also imperative that we recognise there were more than 50 recommendations, but the criticism, the anger, the upset, is focused on a small number. It's therefore important that we recognise that there are areas where there is agreement, and those areas could and probably should be taken forward.
>
> …
>
> What I would also hope for, though, is an ability to be able to recognise that changes must be made, and whilst I've made no decision on the recommendations that have been forwarded to me, I certainly think that the status quo is no longer acceptable."

**70.** Yn ystod y cwestiynau, codwyd y pwynt gan aelodau'r Pwyllgor bod y panel, yn seiliedig ar y feirniadaeth ar Lenyddiaeth Cymru, yn argymell trosglwyddo swyddogaethau i Gyngor Llyfrau Cymru. Fodd bynnag, roedd y panel yn cydnabod y byddai'n rhaid i Gyngor Llyfrau Cymru ei hun newid yn sylweddol er mwyn bod mewn sefyllfa i gyflawni'r swyddogaethau newydd hyn. Yn ymateb i hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

> "I think the Member makes a fair point. That's why I said in the Chamber that I was only 'minded' to accept the recommendations. I've been considering them further and I will await this committee's report before reaching the final decision on those recommendations."

**71.** Pan ofynnwyd a oedd unrhyw wersi i'w dysgu yn sgil proses yr adolygiad, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

> "… One thing that I would accept is that, in the future, a similar review … should be preceded by a level of engagement with the organisations that are going to be reviewed to gain their confidence that individual panel members cover a wide range of subject areas. … what I'd like to do is make sure that all organisations, all the representative bodies, are confident that all of the skillsets are represented on the panel."

**72.** O ran bod Llenyddiaeth Cymru yn sefydliad yr oedd Cyngor y Celfyddydau'n ei gategoreiddio'n 'risg goch', clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan swyddogion y Gweinidog, ac roedd un o'r rheini'n codi amheuon ynghylch canfyddiadau'r adroddiad ar y pwynt hwn. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> [Mr P. Owen:] "They have that red-risk rating, but I think it's important to understand that red risk in the Arts Council's view does not necessarily represent that an organisation is (a) either unfit to receive public funds, or (b) in imminent danger of collapse. It means that the organisation is facing a number of challenges and, as you've already pointed out, it may also just reflect the fact that there are external factors, like this review, that potentially have the ability to threaten the organisation in some way. … we certainly weren't hearing anything as officials from the Arts Council that it felt that Literature Wales was in danger as an organisation and potentially not able to carry out its work."

**73.** Serch hynny, dywedodd swyddog a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â chynorthwyo'r panel adolygu wrth y Pwyllgor:

> [Mr Kindred:] "It isn't just about the risk of the review, because there were red risks attached to Literature Wales prior to the constitution of the review. That is the evidence that the panel received from the arts council."

**74.** Unwaith eto, wrth ystyried a oedd yn rhesymol casglu, fel y gwnaeth y panel, nad oedd gan Lenyddiaeth Cymru "y cyfansoddiad cywir o sgiliau a phrofiad i redeg corff sy'n gwario arian cyhoeddus', roedd tystiolaeth y swyddogion yn codi amheuon ynghylch a oedd barn y panel yn deg yn y cyswllt hwn:

> [Mr P. Owen:] "…I've not had any reason … to believe that arts council considered Literature Wales in that way.
>
> …
>
> … I think personally that is probably not a fair judgment to reach."[628]

**75.** Gwnaeth swyddog a oedd yn cydweithio'n agos â'r panel adolygu y pwynt hwn:

> "The panel was saying that, at that point in time, it had identified, following evidence that it had received from Literature Wales, from others, from stakeholders, and that it concluded that there were skills and experience gaps that needed to be filled."

**76.** O ran penodi'r panel a'i annibyniaeth a sut yr ymdriniwyd ag achosion o wrthdaro buddiannau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor nad oedd aelodau'r panel wedi'u penodi drwy gynnal cystadleuaeth agored:

> "They were appointed on a task-and-finish basis. So, a list of names was drawn up by officials and presented to the then Minister and me, as Deputy Minister, from which the current panel was drawn. It was carried out on a task-and-finish basis. It was the normal process that's used in these sorts of circumstances and, again, I don't think that the integrity of those individuals can be questioned."

**77.** Ynglŷn â'r gwrthdaro buddiannau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "I should just say, I received a very, very detailed explanation on this from the panel just last week, and I'm confident that the registration of interests was comprehensive and there were no conflicts of interests that were not identified or dealt with in an appropriate way."

# 3. Ein Casgliadau a'n Hargymhellion

## Sylwadau Cyffredinol

**78.** Cynhaliwyd Ymchwiliad y Pwyllgor er mwyn ymateb i'r anesmwythyd a fynegwyd gan Lenyddiaeth Cymru am argymhellion yr adolygiad annibynnol, a gefnogwyd gan nifer o aelodau'r cyhoedd a chan Gyngor Celfyddydau Cymru. Wrth benderfynu cynnal yr ymchwiliad hwn, nid ein bwriad ni yw cynnal archwiliad manwl na fforensig i ganfyddiadau'r panel adolygu ac nid yw'n fwriad gennym ychwaith godi amheuon am eu huniondeb. Nid ydym wedi adolygu'r holl argymhellion yn fanwl ac nid yw hynny ychwaith yn fwriad gennym.

**79.** Dylem hefyd ddweud ar y dechrau nad oes gennym unrhyw reswm dros amau uniondeb na gallu personol yr un o aelodau'r panel. Mae'n bosibl anghytuno â'u casgliadau yn gyfan gwbl neu'n rhannol heb amau eu bod wedi gwneud eu gwaith yn gydwybodol ac mai eu prif gymhelliant oedd cyflawni gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n anffodus bod rhywfaint o'r feirniadaeth ar yr adroddiad i bob golwg yn bersonol ei natur ac nad yw hyn yn fawr o anogaeth i bobl alluog a gonest eraill roi o'u hamser i wneud gwasanaeth cyhoeddus o'r fath.

**80.** Wedi dweud hynny, nid ydym yn argyhoeddedig bod yr adroddiad a'r ffordd yr aeth y panel ati i gwblhau'r dasg wedi bod o les mawr i Weinidogion a hynny mewn nifer o feysydd pwysig. Wrth lunio ein casgliadau, a nodir yn fanylach isod, rydym wedi defnyddio dogfennau a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn 'gyfrinachol'.

**81.** Cred y Pwyllgor y byddai cyhoeddi'r dogfennau hyn yn agored yn golygu y gellid rhoi ystyriaeth gyhoeddus fwy gwybodus i'r materion a dafodwyd gan y panel. Serch hynny, rydym yn nodi pryderon y Llywodraeth ynghylch diogelu data, a'r egwyddor na ddylid cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd paneli annibynnol. Yn ein barn ni, byddai'r budd cyhoeddus a ddeillia o gyhoeddi'r dogfennau hyn yn gwrthbwyso rhesymau Llywodraeth Cymru dros beidio â gwneud hynny, ac i bob golwg, nid oes fawr ddim ynddynt na fyddai modd ei gyhoeddi a duo ambell ddarn fel sy'n briodol. Byddai hefyd yn help i dawelu unrhyw bryderon sy'n dal i hofran ynghylch sut yr ymdriniwyd ag unrhyw wrthdaro ymddangosiadol o ran buddiannau.

> **Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl ddogfennau a restrir ym mharagraff 49 o'r adroddiad hwn ynghyd â chofnodion cyfarfodydd y panel annibynnol.

# Dadansoddiad y Panel

## Diffyg Ystyriaeth Ddigonol i'r Materion Allweddol

**82.** Yn ei ymateb i'r adroddiad a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi nifer o brif ganfyddiadau'r panel, yn enwedig ynghylch y ffordd yr oedd y Llywodraeth yn buddsoddi mewn Cyhoeddi a Llenyddiaeth a bod angen cysylltiadau strategol cryfach rhwng gwahanol rannau o'r sectorau Cyhoeddi a Llenyddiaeth.

**83.** Serch hynny, maent hefyd yn beirniadu nifer o elfennau pwysig er enghraifft nad yw'r materion allweddol yn cael eu harchwilio'n ddigon manwl. Mae hyn yn golygu bod perygl na wnaiff y camau a gynigiwyd sicrhau'r gwelliannau a geisir. Maent yn cyfeirio at adroddiadau ynglŷn â gostyngiad o 65% yn y gwerth a gynhyrchwyd gan gyhoeddi yng Nghymru, o £103m i £ 35.7m[14] ac yn dweud nad yw'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad go iawn o'r rheswm dros y gostyngiad hwn nac ychwaith yn ateb cwestiynau strategol allweddol yn foddhaol.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn nad yw dadansoddiad y panel o'r dirywiad ym maes cyhoeddi yng Nghymru yn ddigonol. Mae'r diffyg dadansoddi hwn yn codi pryderon mwy cyffredinol am y dystiolaeth y seiliwyd argymhellion y panel arni.

## Dim digon o bwyslais ar lenyddiaeth

**84.** Mae'r Adolygiad yn ymwneud yn bennaf â Chyhoeddi. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Llenyddiaeth Cymru wedi beirniadu'r ffordd y mae'r panel wedi diffinio llenyddiaeth gan ddweud ei fod yn gyfyng ac nad yw'n cydnabod bod y ffordd y mae llenyddiaeth yn cael ei chreu a'i rhannu a'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn ymwneud â hi wedi newid, yn enwedig mewn byd digidol.

**Casgliad 2.** Rydym yn cytuno â'r farn bod adroddiad y panel yn canolbwyntio'n rhy gyfyng ar gyhoeddi ac na roddwyd digon o sylw i'r newidiadau yn y ffordd y mae llenyddiaeth yn cael ei chreu a'i rhannu, yn enwedig yn y byd digidol.

## Cyngor Llyfrau Cymru

**85.** Mae'r panel wedi argymell trosglwyddo swyddogaethau i raddau sylweddol o Lenyddiaeth Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru. Cydnabu Prif Weithredwr cymharol newydd y Cyngor Llyfrau fod y Cyngor Llyfrau ei hun yn wynebu amrywiaeth o

[14] Adroddiad y Western Mail ar y Diwydiannau Creadigol (7 Mehefin 2017)

heriau ac anghenion, yn benodol o ran gwella'i waith ymgysylltu digidol, ei farchnata a'i ymgysylltu rhyngwladol.

**86.** Nid ydym yn argyhoeddedig bod Cadeirydd Cyngor Llyfrau Cymru yr un mor ymrwymedig i'r maes hwn nac ychwaith bod ei wybodaeth am bwysigrwydd yr agenda ddigidol a materion newydd eraill yn enwedig mor gynhwysfawr ag y byddem wedi gobeithio.

**87.** O ystyried yr amrywiaeth o heriau y mae'n eu hwynebu, nid ydym yn argyhoeddedig mai'r Cyngor Llyfrau sydd yn y sefyllfa orau ar hyn o bryd i ddatblygu'r swyddogaethau ychwanegol a argymhellir yn yr adolygiad. Nid ydym ychwaith yn argyhoeddedig bod y panel wedi ystyried yn iawn pa mor ymarferol fyddai trosglwyddo swyddogaethau Llenyddiaeth Cymru i'r Cyngor Llyfrau gan y byddai'r broses honno'n anochel yn un hir. Mae'n bosibl y byddai'r trosglwyddo arfaethedig yn tarfu'n fawr ar y gwaith ac y gallai arwain at golli llawer o swyddi neu gostau sylweddol wrth symud swyddi o'r naill sefydliad i'r llall.

> **Casgliad 3.** Nid ydym yn argyhoeddedig bod agweddau ymarferol a chostau trosglwyddo swyddogaethau Llenyddiaeth Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru wedi cael eu hystyried yn iawn nac ychwaith mai Cyngor Llyfrau Cymru sydd yn y sefyllfa orau i ysgwyddo'r cyfrifoldebau newydd hyn ar hyn o bryd.

## Beirniadaeth ar Lenyddiaeth Cymru

**88.** Mae adroddiad y panel yn cynnwys nifer o sylwadau deifiol a difrïol am Lenyddiaeth Cymru. Cyfiawnhawyd llawer o hyn yn sgil y ffaith bod Cyngor y Celfyddydau wedi nodi bod Llenyddiaeth Cymru yn wynebu 'risg goch'. Mae'r derminoleg hon yn anffodus oherwydd ei bod yn awgrymu y bydd y sefydliad o fewn dim yn wynebu'r risg o fethiant difrifol.

**89.** Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i gweld a'i chlywed, er bod Llenyddiaeth Cymru yn wynebu nifer o anawsterau difrifol, fod rhywfaint o'r feirniadaeth sydd yn adroddiad y panel yn annheg. Yn benodol, y disgrifiad o Lenyddiaeth Cymru fel sefydliad sydd heb:

> "y cyfansoddiad cywir o sgiliau a phrofiad i redeg corff sy'n gwario arian cyhoeddus."

Mae'r ymadrodd hwn yn un sy'n awgrymu nad oedd Llenyddiaeth Cymru yn ffit i dderbyn arian cyhoeddus neu fod perygl iddo fethu o fewn dim. Nid yw tystiolaeth Cyngor y Celfyddydau yn ategu hyn ac yn wir mae'r Cyngor wedi gwadu hyn yn bendant. Yn wir, roedd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno

mai ystyr 'risg goch' ym marn Cyngor y Celfyddydau, o'r hyn yr oedd ef yn ei ddeall, oedd nad oedd Llenyddiaeth Cymru, er ei fod yn wynebu nifer o heriau, yn anaddas neu mewn perygl o fethu.

**90.** Yn anffodus, nid oedd y geiriau y dewisodd y panel eu defnyddio yn adlewyrchu'r realiti sy'n fwy cymhleth. Efallai bod hyn wedi arwain y panel at lunio nifer o gasgliadau ynghylch Llenyddiaeth Cymru nad oedd modd eu cyfiawnhau ac at seilio rhai o argymhellion mwyaf dadleuol yr adroddiad arnynt.

**Casgliad 4.** Mae Llenyddiaeth Cymru yn wynebu nifer o heriau. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn dangos nad oedd yn ffit i gael arian cyhoeddus nac ychwaith bod perygl iddo fethu. Mae hyn yn bwrw rhagor o amheuon ar rai o brif argymhellion y panel.

## Gwrthdaro buddiannau

**91.** Un feirniadaeth ar yr adroddiad oedd yr argraff a gafwyd bod achosion o wrthdaro buddiannau mewn perthynas â rhai aelodau o'r panel. Yn sicr, mae rhywfaint o dystiolaeth i gefnogi'r farn honno ac nid dim ond o du'r rhai sy'n feirniadol o'r adroddiad. Crybwyllwyd y mater gan Gadeirydd Cyngor Llyfrau Cymru ac roedd Cadeirydd y panel hefyd yn cydnabod bod angen ystyried hyn ac felly roedd wedi cymryd camau pendant i ddatgan buddiannau perthnasol a lle'r oedd hynny'n briodol i ymneilltuo o'r trafodaethau perthnasol. Cadarnhawyd hyn gan swyddogion a chan Ysgrifennydd y Cabinet a oedd wedi gofyn am esboniad manwl am hyn ac wedi'i gael.

**Casgliad 5.** Er bod canfyddiad bod achosion o wrthdaro buddiannau mewn perthynas â rhai aelodau o'r panel, cafodd pob buddiant ei ddatgan yn briodol ac ni welsom ddim tystiolaeth a oedd yn awgrymu nad oedd gwrthdaro posibl o'r fath wedi'i reoli'n briodol gan ddilyn y safonau uniondeb uchaf un.

**92.** Serch hynny, efallai fod y ffordd y penodwyd y panel wedi cyfrannu at greu'r argraff bod achosion o wrthdaro buddiannau. Nid bai'r panel yw hyn ond, yn ein barn ni, gallai proses benodi fwy agored a thryloyw fod wedi osgoi'r feirniadaeth hon o'r cychwyn cyntaf. Nid yw hynny'n golygu bod angen dilyn proses benodi gyhoeddus lawn ymhob achos. Byddai hynny'n feichus, ond dylid dilyn egwyddor o fod yn agored ac yn dryloyw wrth wneud penodiadau tebyg yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull agored a thryloyw yn y dyfodol wrth benodi aelodau paneli ymgynghorol a chyrff tebyg, pan na fydd angen dilyn proses benodi gyhoeddus lawn.

## Yr ymateb i'r adroddiad

**93.** Mae rhai o'r agweddau personol rydym wedi bod yn dyst iddynt yn peri i ni bryderu am safonau proffesiynoldeb yn y sector. Efallai y cafodd hyn ei grynhoi orau yn y sylwadau canlynol gan Dawn Bowden AC yn ystod ein cyfarfod ar 4 Hydref:

> "This is my first experience of dealing with the sector in an inquiry like this, and I have to say that I'm not mightily impressed. I get the distinct impression that we've got a sector here that's rife with factionalism, rivalries and jealousies that, quite frankly, leaves me wondering why the Welsh Government's even bothering to finance some of these organisations. That may be very unfair, but that's an impression I've got from my involvement in this inquiry."

**94.** Rydym yn derbyn y gall fod gan Lenyddiaeth Cymru ryw sail dros boeni am y broses, am achosion o wrthdaro buddiannau neu fod gan y panel ragdybiaethau ynghylch ei rôl. Serch hynny, nid yw natur or-amddiffynnol eu hymateb wedi helpu'r sefyllfa a phrin bod hyn wedi meithrin ysbryd o gydweithio â phartneriaid er budd cyhoeddus drwy roi buddiannau carfannau cul o'r neilltu.

**Casgliad 6.** Nid yw ymateb gor-amddiffynnol Llenyddiaeth Cymru i'r adroddiad yn creu argraff dda o'r sefydliad ac nid yw ychwaith wedi cyfrannu at greu ysbryd o gydweithio yn y dyfodol nac at drafodaeth aeddfed am ddyfodol y sector. Er ein bod yn cydnabod y gwnaed nifer o sylwadau cadarnhaol gan dystion ynghylch y gwaith da y mae'r sefydliad yn ei wneud, ni wnaeth ei uwch dîm arwain argraff arnom dros y cyfnod hwn.

**95.** Rydym yn amau'n fawr a wnaeth y panel graffu i'r un graddau beirniadol ar Gyngor Llyfrau Cymru ag a wnaeth ar Lenyddiaeth Cymru. Serch hynny, mae'r darlun o'r Cyngor a geir yn adroddiad y panel yn un cymharol ffafriol er bod y corff hwnnw hefyd yn destun rhywfaint o feirniadaeth. Mae'n amlwg bod y panel ei hun yn credu bod gan y Cyngor Llyfrau bethau i'w hystyried ac roeddem yn falch o weld Prif Weithredwr newydd y Cyngor o leiaf yn cydnabod hyn.

**96.** Er efallai y gellid disgwyl y byddai'r Cyngor Llyfrau yn croesawu'r adroddiad, mae'n bosibl bod naws or-frwdfrydig braidd eu hymateb wedi atgyfnerthu ein pryderon ynghylch y posibilrwydd o gydweithio cynhyrchiol yn y sector yn y dyfodol.

**Casgliad 7.** Dylai Cyngor Llyfrau Cymru ystyried a oedd ei ymateb i'r adroddiad er budd gorau cydweithio yn y dyfodol.

## Y Ffordd Ymlaen

**97.** Wrth gynnal yr Ymchwiliad hwn, prin oedd y pethau a welsom a wnaeth argraff dda arnom. Yn hytrach na sector cydweithredol a blaengar, yr hyn yr ydym wedi'i weld yw sector lle mae buddiannau carfannol cul ac ysbryd cystadleuol wedi bod yn drech na'r budd cyhoeddus. Mae hyn wedi atgyfnerthu ein pryderon ynghylch problem ehangach yn y sector.

**Casgliad 8.** Mae angen i Lywodraeth Cymru yn awr fynd i'r afael â'r gwendidau y mae'r adroddiad hwn yn eu nodi i sicrhau bod y cyrff dan sylw yn rhoi eu gwahaniaethau o'r neilltu ac yn ymdrin â'r materion sylfaenol, sef y materion yr oedd y panel, er gwaetha'i holl wendidau, yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

**98.** O ystyried ein casgliadau a'n hargymhellion uchod, nid ydym yn cytuno y dylid bwrw ymlaen ar hyn o bryd ag argymhellion y panel i drosglwyddo swyddogaethau Llenyddiaeth Cymru ac na ddylid gwneud hynny heb wneud cryn waith dadansoddi a meddwl ychwanegol. Fodd bynnag, efallai y byddai argymhellion eraill yn yr adroddiad yn fwy derbyniol ar lefel ehangach. Dylai'r Gweinidog oedi ac ystyried ein safbwyntiau cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â hwy.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell na ddylid bwrw ymlaen â chynigion y panel i drosglwyddo swyddogaethau o Lenyddiaeth Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru heb wneud rhagor o waith dadansoddi beirniadol a heb ystyried y mater eto. Dylai'r Gweinidog oedi ac ystyried ein safbwyntiau cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â chynigion eraill y panel.